Gohebiaeth

Geiriau allweddol	
Circular	Cylchlythyr
E-mail	E-bost
Fax.	Ffacs.
Letter	Llythyr
Memorandum	Memorandum/Memorandwm
Message	Neges
Reference	Geirda
Standard letter	Llythyr safonol

- Mae'r canllawiau canlynol yn berthnasol i'r rheini sy'n gohebu â sefydliadau, unigolion, ac aelodau o'r cyhoedd (gan gynnwys darpar fyfyrwyr) yng Nghymru, ac aelodau o staff a myfyrwyr y brifysgol.
- Mae gohebiaeth yn cynnwys llythyron, memoranda, cylchlythyron, e-byst, a ffacs. Dylai pob gohebiaeth safonol a chyffredinol gyda'r bobl uchod gael ei pharatoi yn ddwyieithog.
- Mae myfyrwyr cofrestredig yn dynodi ym mha iaith y dymunant dderbyn eu gohebiaeth o'r sefydliad, yn Gymraeg neu yn Saesneg, adeg eu cofrestru. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar system AStRA y brifysgol a gellir cael mynediad iddi gan ddefnyddwyr AStRA mewn adrannau.
- Mae staff yn mynegu eu dewis iaith yn yr Holiadur Sgiliau Ieithyddol a chedwir y wybodaeth hon gan Adnoddau Dynol ar systen Cyborg.
- Wrth ddechrau gohebiaeth yn enw neu ar ran y sefydliad, dylech sicrhau fod hyn yn digwydd yn iaith ddewisiedig y derbynydd, os yn hysbys; fel arall dylech ohebu yn ddwyieithog.
- Wrth baratoi ateb ysgrifenedig i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg, dylai'r ateb fod yn Gymraeg hefyd. PEIDIWCH ÂG anfon ateb yn Saesneg i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.
- Wrth anfon gohebiaeth ddwyieithog, dylech sicrhau fod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu dosbarthu yr un pryd, a bod y naill fersiwn a'r llall yn gyfartal â'i gilydd o ran amlygrwydd a diwyg a phan fo'r ohebiaeth wedi'i llofnodi, rhaid i'r llofnod ymddangos ar y fersiynau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

Gweler Cynllun Iaith Gymraeg : 4.1 (Gohebu â'r cyhoedd)

- Mae enghreifftiau o lythyron, ffacs, memoranda, labeli ac amlenni ar gael. Ceir taflen gymorth hefyd ar anfon e-byst dwyieithog.
- Gall y daflen gymorth ar **ddyddiadau** a **swyddi** o fewn y brifysgol bod yn ddefnyddiol hefyd wrth baratoi gohebiaeth.
- Ceir cyrsiau ar gyfer siaradwyr di-Gymraeg ar 'Dealing with Welsh Correspondence'.
- Cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ar est. 2045 am fwy o gyngor.
- Cysylltwch â *cyfieithu@aber.ac.uk* os am gyfieithu gohebiaeth. Gall siaradwyr Cymraeg anfon eu cyfeithiadau eu hunain i'r Uned Gyfieithu ar gyfer eu golygu a'u siecio os dymunir.